# Polisi ar asesu yn y Gymraeg

Crynodeb o'r ddogfen:

Mae'r polisi hwn wedi'i lunio i helpu **canolfannau sy'n darparu cymwysterau Pearson** i ddeall pryd y gellir **asesu yn y Gymraeg**.

Mae'n esbonio'r gefnogaeth rydym ni'n ei darparu ar gyfer asesu yn y Gymraeg a sut rydym ni'n gweithio gyda chanolfannau i ddeall y galw.

Os oes angen manylion arnoch am asesu mewn ieithoedd eraill neu am sut i wneud cais, gweler ein polisi ar Y Defnydd o Ieithoedd mewn Cymwysterau

# Cynnwys

**Pearson Education Ltd – ein cenhadaeth a'n gwerthoedd** 3

**1. Pa gymwysterau mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt?** 4

**2. Datganiad polisi** 4

**3. Darparu cymwysterau yn y Gymraeg** 4

Sut rydym ni'n penderfynu 4

Beth rydym ni'n ei ddarparu 5

**Cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn y Gymraeg** 5

**Cymwysterau galwedigaethol yn y Gymraeg** 6

**Asesu cymwysterau galwedigaethol yn fewnol** 6

**4. Gweithio gyda chanolfannau** 6

**5. Cyfeiriadau rheoleiddiol** 7

**6. Dyddiad adolygu'r polisi** 7

**7. Cysylltu â ni** 7

**8. Rheolaeth fersiwn** 7

# Pearson Education Ltd – ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

Mae ein diben yn syml: helpu pobl i wireddu'r bywyd maen nhw'n breuddwydio amdano trwy ddysgu. Credwn fod pob cyfle dysgu yn gyfle i dorri trwodd yn bersonol. Dyma pam mae ein 18,000 fwy neu lai o weithwyr Pearson yn ymroi i greu profiadau dysgu sy'n fywiog ac yn cyfoethogi, ac a luniwyd i gael effaith mewn bywyd go iawn. Ni yw cwmni dysgu gydol oes y byd, gan wasanaethau cwsmeriaid ym mron 200 o wledydd gyda chynnwys digidol, asesiadau, cymwysterau a data. Nid dim ond beth rydym ni'n ei wneud yw dysgu. Dyna ydym ni. Ymwelwch â ni yn pearsonplc.com.

Cawn ein rheoleiddio gan reoleiddwyr cymwysterau'r DU, sef Ofqual (Lloegr), CCEA Regulation (Gogledd Iwerddon) a Chymwysterau Cymru (Cymru). Mae ein polisïau rheoleiddiol yn rhan annatod o'n hymagwedd ac maent yn mynegi sut rydym ni'n bodloni gofynion rheoleiddiol. Lluniwyd y polisïau hyn i gefnogi canolfannau a myfyrwyr ac maent yn amlinellu ein hymagwedd at ddylunio, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau a gwasanaethau Pearson yn glir.

# 1. Pa gymwysterau mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt?

1.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'n holl gymwysterau galwedigaethol ac academaidd sy'n cael eu cynnig yng Nghymru.

# 2. Datganiad polisi

2.1 Mae Amod D9 Cymwysterau Cymru yn datgan bod rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi, cynnal a chydymffurfio â datganiad polisi sy'n amlinellu p'un a yw'n darparu, neu'n cynnig darparu, cymwysterau yn Gymraeg.

2.2 Er bod y rhan fwyaf o asesiadau yn Saesneg, gallwn gefnogi asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer rhai cymwysterau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn gallu arddangos eu gwybodaeth yn yr iaith sy'n gweithio orau iddyn nhw.

# 3. Darparu cymwysterau yn y Gymraeg

3.1 Mae Pearson yn cynnig cymwysterau[1] i ddysgwyr ar draws y DU ac, ar gyfer rhai cymwysterau, mae'n gallu darparu asesiad yn y Gymraeg. Lle nad yw Pearson yn cynnig darpariaeth o'r fath ar gyfer eu cymwysterau, gall cyrff dyfarnu eraill yng Nghymru gynnig cymwysterau tebyg a gallant gynnig opsiwn asesu yn y Gymraeg ar eu cyfer.

## Sut rydym ni'n penderfynu

3.2 Wrth adolygu p'un a allwn ni ddarparu cymwysterau ac asesiadau yn y Gymraeg, rydym ni'n ystyried y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn derfynol, oherwydd gall fod ystyriaethau eraill):

- angen dysgwyr a'r galw;

[1] nid yw pob math o gymhwyster yn cael eu cynnig yn holl wledydd y DU neu'n rhyngwladol.

- p’un a yw cymwysterau tebyg gan gyrff dyfarnu eraill eisoes ar gael yn y Gymraeg;
- ein gallu i gynnal cywirdeb a dilysrwydd yn y Gymraeg, gan gynnwys mynediad at arbenigwyr pwnc;
- hyfywedd masnachol, gan gynnwys p’un a oes cyllid ar gael ar gyfer cyfieithu a chostau eraill; a
- gofynion rheoleiddiol ar gyfer achredu a chyllido.

### Beth rydym ni’n ei ddarparu

3.3 Os bydd cymhwyster ar gael yn y Gymraeg:

- Bydd deunyddiau asesu sy’n cael eu cynhyrchu gan Pearson yn cael eu darparu yn Gymraeg.
- Bydd yr holl ddeunyddiau cymorth hanfodol i ddysgwyr ar gael yn y Gymraeg, hefyd. Mae hyn yn debygol o gynnwys deunyddiau asesu enghreifftiol ac unrhyw rannau o’r fanyleb neu ddogfennau eraill y mae disgwyl i ddysgwyr eu darllen cyn rhoi cynnig ar yr asesiad.
- Fel arfer, bydd deunyddiau hyfforddiant, safoni a chanllawiau i ganolfannau yn parhau i fod yn y Saesneg, oni chytunir yn wahanol.
- Bydd gweithgareddau cymeradwyo canolfan a sicrhau ansawdd yn gysylltiedig â chymeradwyo canolfan yn cael eu cynnal yn y Saesneg hefyd, oni chytunir yn wahanol ar hynny, a’i drefnu gyda ni, ymlaen llaw. Mae’n ofynnol i ganolfannau ddarparu unrhyw ddeunyddiau at y dibenion hyn yn y Saesneg.
- Cyhoeddir tystysgrifau yn y Saesneg.

## Cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn y Gymraeg

3.4 Bwriedir i gymwysterau TGAU a TAG Safon Uwch Pearson fodloni gofynion rheoleiddiol Ofqual, y rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr ac, yn achos y rhan fwyaf o bynciau, mae asesiadau ar gael yn y Saesneg yn unig.

3.5 Gall cwsmeriaid yng Nghymru ddefnyddio cymwysterau TGAU a Safon Uwch Pearson ar gyfer y pynciau hynny nad ydynt yn cael eu cynnig gan gorff dyfarnu Cymru, sef CBAC. Mae rhestr o’r pynciau hynny i’w cael yma:

- TGAU diwygiedig yng Nghymru | Cymwysterau Pearson.
- TAG diwygiedig yng Nghymru | Cymwysterau Pearson.

3.6 Ar hyn o bryd, y TAG Safon Uwch mewn Technoleg Cerddoriaeth yw’r unig TGAU neu Safon Uwch rydym ni’n ei gynnig gyda’r opsiwn o gael asesiad cyfrwng Cymraeg. Gall canolfannau ddarganfod codau mynediad ar gyfer arholiadau cyfrwng Cymraeg yn

Llawlyfr Gwybodaeth Person Information Manual (Adran 2 ar gyfer TAG) i ddarganfod y cod y dylent ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ddysgwyr sy'n dymuno sefyll arholiad y pwnc hwn trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cymwysterau galwedigaethol yn y Gymraeg

3.7 Mae llawer o gymwysterau galwedigaethol Pearson wedi cael eu cymeradwyo i dderbyn cyllid yng Nghymru. Mae'r cymwysterau hyn wedi'u rhestru yma, ynghyd â rhif cymeradwyo / dynodi Cymwysterau yng Nghymru ar gyfer pob cymhwyster a'r cyfnod y mae ar gael o ran cofrestru ac ardystio. Hefyd, mae'n cadarnhau p'un a yw'r asesiad ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, neu yn y Saesneg yn unig.

3.8 Mae ein Llawlyfr Gwybodaeth (Adran 11 BTEC, NVQ, SVQ a Phrentisiaethau) yn rhestru cymwysterau sydd ag opsiynau Cyfrwng Cymraeg a'r cod mynediad i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw ddysgwyr sy'n dymuno cael deunyddiau asesu yn y Gymraeg.

## Asesu cymwysterau galwedigaethol yn fewnol

3.9 Lle bo'n bosibl, rydym ni'n cynorthwyo canolfannau i asesu elfennau neu unedau yn fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn gwneud hyn:

- Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'n Tîm Contractau a Dyfarniadau adeg cofrestru, trwy Borth Cymorth Pearson Support Portal (gan ddewis 'Arholiadau/Gweinyddu').
- Byddwn yn dyrannu Gwiriwr Safonau neu Arholwr Allanol Cymraeg ei iaith, lle bo'n bosibl, ond fel arall, byddwn yn cyflawni'r holl weithgareddau sicrhau ansawdd, gan gynnwys gwirio ac adrodd, yn y Saesneg. Os na fydd Gwiriwr Safonau Cymraeg ei iaith ar gael, byddwn yn gwneud trefniadau eraill gyda'r Gwiriwr Safonau a neilltuwyd ac yn darparu gwasanaethau cyfieithu.

# 4. Gweithio gyda chanolfannau

4.1 Byddwn yn:

- cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o gymwysterau sydd ar gael gennym yn y Gymraeg;
- archwilio pa adnoddau y gellir eu darparu yn y Gymraeg i gefnogi asesu; a
- monitro galw a chwilio am ffyrdd o wella mynediad at asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

# 5. Cyfeiriadau rheoleiddiol

5.1 Mae rheoleiddwyr y DU yn gofyn bod pob corff dyfarnu yn sefydlu ac yn cynnal eu cydymffurfedd ag amodau a meini prawf rheoleiddiol. Yn rhan o'r broses hon, bydd polisïau a chanllawiau sy'n gysylltiedig â statws Pearson fel corff dyfarnu yn cyfeirio at unrhyw amodau a meini prawf y maent yn mynd i'r afael â nhw.

5.2 Mae'r polisi hwn yn mynd i'r afael â'r meini prawf ac amodau rheoleiddiol canlynol:

| Rheoleiddiwr cymwysterau neu gorff llywodraethol perthnasol | Rheol reoleiddiol neu ddogfen ganllaw | Amod neu faen prawf rheoleiddiol |
|---|---|---|
| Cymwysterau Cymru | Amodau Cydnabod Safonol Cymwysterau Cymru | D9 |

# 6. Dyddiad adolygu'r polisi

6.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu ym mis Ionawr 2027.

# 7. Cysylltu â ni

7.1 Gall canolfannau yn y DU gysylltu â ni yma i gael cyngor neu gymorth.

# 8. Rheolaeth fersiwn

| Fersiwn | Newidiadau | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1 | 4.1 dileu testun 'Gan gynnwys sicrhau bod deunyddiau hyrwyddo a gynhyrchwn yn amlygu pa | 14 Chwefror 2025 |

| Fersiwn | Newidiadau | Dyddiad |
| --- | --- | --- |
| | gymwysterau sydd ar gael gydag opsiwn asesu yn y Gymraeg'. | |
| 1 | Diweddaru pob dyddiad | 14 Chwefror 2025 |
| 1.1 | 3.13 dileu 'Bydd angen i ni wybod teitl llawn y cymhwyster a'r iaith rydych chi'n bwriadu ei defnyddio at ddiben cyflwyno neu asesu'. | 23 Mai 2025 |
| 1.2 | Diwygiadau i'r iaith ac i naws y llais yn unig. | 30 Ionawr 2026 |